**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 15 Ebrill 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Powderhill |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd S Bradwick

**151 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes a J Williams.

**152 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**153 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**154 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy

yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**155 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021 yn rhai cywir.

**156 CAIS RHIF: 20/1114**

**Adeiladu adeilad masnachol gyda 5 o fflatiau hunangynhwysol i'r lloriau uwch (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 03/11/2020) (derbyniwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar 24/02/2021) Ar safle 1 Stryd y Canon, Aberdâr, CF44 7AT**

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Bradwick, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei fod e'n gefnogol o'r datblygiad yn gyffredinol, ond fod ganddo bryderon ynglŷn â'r storfa finiau a defnydd yr uned fanwerthu arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amodau ychwanegol canlynol:

- Cyn dechrau'r datblygiad, rhaid cyflwyno manylion y trefniadau ar gyfer storio/casglu biniau ar gyfer yr holl ddatblygiad (manwerthu a phreswyl) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo a'i gadw felly wedi hynny.

  Rheswm: I sicrhau amwynder darpar breswylwyr, yn unol â Pholisi AW5, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

- Er gwaethaf darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir Cyffredinol) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n dirymu ac yn ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw), bydd yr uned fanwerthu ar y llawr gwaelod a gymeradwyir drwy hyn yn cael ei chyfyngu i ddefnyddiau sy'n dod o fewn Dosbarth A1 yn unig.

  Rheswm: Er mwyn diffinio a chyfyngu ar gwmpas y caniatâd.

**157 CAIS RHIF: 21/0096**

**Pont droed teithio llesol newydd. Dros yr Afon Cynon rhwng canol tref Aberdâr a Chanolfan Hamdden Sobell / Ysgol Gymunedol Aberdâr.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi ei fod e'n cefnogi'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar yr adeg hon mewn achos, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Bradwick, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, fuddiant personol yn yr eitem. “Rwy’n llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol Aberdâr sydd wedi cael ei chrybwyll yn yr adroddiad.”

**158 CAIS RHIF: 18/1409/13**

**Cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynllun safle diwygiedig ar 12/02/19 a'r disgrifiad diwygiedig ar 13/06/19). Tir i'r de o Stryd y Groes a Theras Trafalgar, Ystrad, Pentre.**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais a adroddwyd yn wreiddiol i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar 17 Hydref 2019, lle roedd argymhelliad swyddog i'w gymeradwyo. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd yr Aelodau eu bod yn bwriadu cymeradwyo'r cais, ond y byddai nifer o amodau ac y byddai angen i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 (A.106), er mwyn sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy a Chynllun Hyfforddi Sgiliau Cyflogaeth.

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio yr adroddiad, gan nodi mai'r rheswm dros ddod â'r cais yn ôl i'r Pwyllgor oedd bod ffin llinell goch y safle wedi'i diwygio i hepgor yr is-orsaf a'r darn bach o dir yn uniongyrchol i'r gogledd-orllewin. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau Cytundeb Adran 106 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd:

- ddarparu o leiaf 10% o'r unedau ar y safle yn dai fforddiadwy yn unol â Pholisi NSA 11 y CDLl; a
- chytuno ar Gynllun Hyfforddi Sgiliau Cyflogaeth yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor: Sgiliau Cyflogaeth

**159 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 15/03/2021-02/04/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**